**PWYLLGOR DATBLYGU ECONOMAIDD** **EDC 14-02(p3)**

**Dyddiad:** **17 Hydref 2002**
**Lleoliad:** **Ystafell Bwyllgora 1, Y Cynulliad Cenedlaethol, Bae Caerdydd**
**Teitl:** **AWDURDOD DATBLYGU CYMRU: Adolygiad Hanner Blwyddyn 2002-03**

## Pwrpas

1. Mae'r papur hwn yn rhoi'r cefndir i Adolygiad Hanner Blwyddyn Awdurdod Datblygu Cymru (yn Atodiad A). Gwahoddir y Pwyllgor i nodi a gwneud sylwadau ar y cynnydd y mae'r Awdurdod wedi'i wneud o'i gymharu â'i dargedau strategol hanner ffordd drwy'r flwyddyn ariannol gyfredol.

2. Bydd swyddogion y WDA yn mynd i'r cyfarfod Pwyllgor i gyflwyno'r Adolygiad Hanner Blwyddyn ac i ymateb i gwestiynau. Dyma'r swyddogion a fydd yn bresennol:

- Graham Hawker - y Prif Weithredwr
- Gareth Hall - Cyfarwyddwr Gweithredol Datblygu Strategaeth

## Y Cefndir

3. Yr WDA yw'r Corff Cyhoeddus economaidd allweddol a Noddir gan y Cynulliad ac mae'n hanfodol er mwyn cyflawni amcanion Cymru'n Ennill. Mae Cylch Gwaith Blynyddol yr Awdurdod yn cael ei bennu drwy lythyr oddi wrth y Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd at y Cadeirydd ym mis Ionawr. Ynddo ceir y fframwaith strategol ar gyfer Cynllun Gweithredol yr Awdurdod.

4. Mae'r Adolygiad Hanner Blwyddyn yn rhoi cyfle i'r WDA nodi'r hyn a gyflawnodd yng ngoleuni ei dargedau strategol yn ystod chwe mis cyntaf y flwyddyn ariannol 2002-2003. Cyhoeddwyd y targedau yng Nghynllun Gweithredol yr Awdurdod ar gyfer 2002-2003 (a gyflwynwyd fel papur er gwybodaeth i'r Pwyllgor ar 20 Mawrth 2002 (EDC 06-02(p5)). Cymeradwyodd y Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd y Cynllun Gweithredol ar 13 Mawrth 2002.

5. Amlinellwyd Targedau Strategol yr Awdurdod yn ei Gynllun Corfforaethol drafft ar gyfer 2003-2004 i 2005-2006, a gyflwynwyd i'r Pwyllgor ar 10 Gorffennaf 2001 (EDC-13-02).

### Cydymffurfio

6. Sefydlwyd yr WDA gan y *Welsh Development Agency Act 1975* [Deddf Awdurdod Datblygu Cymru 1975] (fel y'i diwygiwyd). Mae pwerau dan y Ddeddf honno wedi'u trosglwyddo i'r

Cynulliad ac wedi'u dirprwyo i'r Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd a'i staff. Nid oes unrhyw faterion yn ymwneud â rheoleidd-dra neu briodoldeb.

7. Mae Adran 3.7 Datganiad Rheoli'r WDA yn ei gwneud yn ofynnol i'r Awdurdod roi adroddiadau rheolaidd i'r Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd ar ei berfformiad yng ngoleuni targedau a bennwyd yn y Cynllun Busnes blynyddol.

**Goblygiadau Ariannol**

8. Nid oes unrhyw oblygiadau ariannol ychwanegol i'r Cynulliad.